# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR FEDI'R 5ed, 2023

## Yn NEUADD BENTREF RHYDLEWIS am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Ceri Jones (cadeirydd), Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Carol Davies, Cyng.Maldwyn Lewis, Cyng. Sian Williams

Clerc Rhian Jones

Diolchodd y Cyng.Ceri Jones i'r Cyng.Maldwyn Lewis am y gwahoddiad i'r Gwasanaeth Dinesid a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghapel Bryngwenith. Bu'n brynhawn pleserus iawn, gwasanaeth hyfryd a lluniaeth arbennig.
Diolchodd y Cyng.Maldwyn Lewis am y gefnogaeth a braf oedd cael cynnal Gwasanaeth o'r fath yn lleol a hyfryd gweld y Capel mor llawn. Gyda chydweithio aeth popeth yn hwylus dros ben a chasglwyd £1560 ar y dydd, ond gyda chyfraniadau'n parhau i ddod mewn mae'r cyfanswm bellach tua £1800 a fydd yn cael ei roi fel rhodd i Uned Cancr Ysbyty Bronglais.

### 1 . Ymddiheuriadau

- Cyng.Teifi Evans, Cyng.Emyr Jones, Cyng. Rob Jones, Cyng. Roger Davies, Cyng.Mark Davies ynghŷd a'r Cyng.Llŷr Evans.

### 2. Datgan Diddordeb

- **2.1** - Taliad personol i'r Cyng.Maldwyn Lewis am y bocsys Defib ( eisioes wedi cael ei gadarnhau yn y cyfarfod diwethaf ).
- **2.2** - Cynllunio i'r Cadeirydd Ceri Jones – Gwynnant a Gwernant.

### 3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

- **3.1** - Cadarnhaodd y Cyng. Sian Williams fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan y Cyng.Maldwyn Lewis.

### 4. Materion yn Codi

- **4.1 –** Mandate, mae'r Cyng. Sharon Thomas yn parhau mewn cysylltiad gyda'r banc, ond oherwydd fod rhai wedi bod ar eu gwyliau mae bach o oedi wedi bod.
- **4.2** – Angen i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyng.Mark Davies i weld beth yw sefyllfa to Arhosfan bws Coedybryn.
- **4.3 –** Awdit – angen i'r Clerc gysylltu gyda Gwyn Lewis neu Denfer Morgan i weld beth yw sefyllfa cynghorau lleol wrth geisio ad-daliad VAT. Efallai byddai modd cael gwybodaeth wrth Un Llais Cymru hefyd.
- **4.4 –** Awdit – Asesiad Risg - hyn wedi ei wneud Mehefin 7fed 2022, ond angen edrych i weld oes angen addasu ( yn y cyfarfod nesaf ).
- **4.5** – Awdit – Precept, angen manylu ar y rhestr erbyn y Precept nesaf. Edrych ar wariant eleni, trafod hwn ym mis Tachwedd.
- **4.6** – Awdit – Eitem 7 – Cyflogau gweithwyr. Angen i'r Cyng Mark Davies gael contract y Clerc yn barod i arwyddo erbyn cyfarfod mis Hydref.

- **4.7** – Awdit - Rhestr asedau, angen edrych yng nghyfarfod mis Tachwedd pan yng Nghoedybryn nesaf os yw'r llyfr yn y cwpwrdd.
- **4.8** – Awdit – Sieciau heb eu cyfnewid ers 2017 a 2019. Mae angen nodi eu bod bellach yn cael eu canslo er mwyn balansio cyfrifon 23/24.

**5. Materioin y Cynghorydd Sir**

- **5.1 -** Llongyfarch y bobl ifanc sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn arholiadau yn ddiweddar boed mewn ysgolion neu golegau.
- **5.2** – Yn ddiweddar pan oedd oedolyn ifanc yn cerdded ar un o lwybrau'r ardal rhwng Pant ag Aberffinant, rhedodd 4 neu 5 labrador du tuag ato a chydio yn ei ddillad. Nid dyma't tro cyntaf i hyn ddigwydd. Mae'r Heddlu a Swyddogion y Cyngor yn delio gyda'r sefyllfa.
- **5.3 –** Cynhaliwyd Rali lwyddiannus iawn yn Aberystwyth y penwythnos diwethaf, Rali Ceredigion. Bu'r Cyng.Ceri Jones yn cystadlu. Roedd hwn yn ddigwyddiad pwysig i Geredigion oherwydd eu bod yn un o'r goreuon yn y byd am Rali sy'n cadw llygad ar lefelau Carbon Niwtral. Hefyd braf oedd gweld rhywun lleol fel un o'r prif drefnwyr, Charlie Jukes.
- **5.4 –** Y penwythnos nesaf mae Cystadleuaeth Aredig Cymru yn cael ei chynnal yn y Sir ac mae Margaret Sinnet Jones, ein cyn-Glerc yn un o'r prif drefnwyr.
- **5.5 –** Mae linc ar Wefan y Cyngor Sir os oes angen cymorth neu wybodaeth ar unrhyw un am gostau byw, banciau bwyd neu gymorth gyda gwisg ysgol.
- **5.6 -** Mae prydiau bwyd ysgol am ddim i bawb bellach mewn Ysgolion Cynradd.

**6. Gohebiaeth**

- **6.1 –** Cadw Cymru'n Daclus, arolwg ar lein.
- **6.2 –** Dros y misoedd diwethaf mae nifer o deithiau cerdded tywys arfordir Ceredigion wedi bod.
- **6.3 –** HAHAV – Plas Antaron, Penparcau. Cwmni ydyw i bobl sy'n dioddef. Roedd yn son am y gwasanaeth a gynigir ganddynt yn ogystal a holi os oedd gan unrhyw un ddiddordeb i wirfoddoli i'w helpu. Angen i'r Clerc gysylltu a nhw i holi am boster i arddangos ar ein gwefan.
- **6.4** – Gohebiaeth am gofrestru ein bocsys De-fib, ond mae hyn eisioes yn cael ei wneud.
- **6.5 –** Derbyniwyd llythyr o ddiolch wrth Mags am ein cyfraniad i'r Gystadleuaeth Aredig.
- **6.6 –** Diogelwch Data BHIB – derbyniwyd e-bost yn nodi fod geirfa anghywir yn y gwreiddiol ond mae hyn bellach wedi cael ei arall eirio'n gywir.
- **6.7 –** Parish Online? Daeth anfoneb am £96, ond nid oedd neb yn sicr am beth, felly wedi penderfynnu peidio a thalu am y tro a thrafod yn y cyfarfod nesaf.
- **6.8 –** George Holloway PSB ( Public Service Board ) – mae 'n amherthnasol i ni ar hyn o bryd.
- **6.9 –** Cynhelir Diwrnod Materioin Hinsawdd yn Theatr y Byd bach yn Aberteifi ar Fedi'r 9fed.
- **6.10** – Mae Yswyriant BHIB yn newid enw i "Clear Group".
- **6.11 –** Mae sawl hyfforddiant yn dod i fyny yn y dyfodol agos,
  Diogelwch Oedolion - Medi 12fed
  Ecsbloitio Troseddol Plant – Tachwedd 30ain
  Mynd i'r afael a Chaswasiaeth Fodern – Hydref 10fed
- **6.12** – Jane Mansfield, Cadeirydd Castell Newydd Emlyn yn holi am gyfraniad o £100 ( mae angen iddynt lenwi'r ffurflen sydd ar ein gwefan yn holi am gyfraniadau ).

- **6.13 –** Urdd Gobaith Cymru yn holi am gymorth ariannol in Wersyll Llangrannog. Eto angen iddynt lenwi'r ffurflen gywir sydd ar y wefan.

**7. Cynllunio**

- **7.1** - Er fod y dyddiad cau am y ddau gais cynllunio ddaeth i law ym mis Awst ( pan nad oedd gennym gyfarfod) bellach wedi pasio, mae'n bwysig ein bod yn ymateb fel Cyngor Cymuned.
  Gwynnant – nid oes gennym wrthwynebiad ond fod y canllawiau cynllunio a ffosffadau yn cael eu dilyn. Mae'r cais hwn yn cefnogi twristiaeth mewn ardal wledig. Mae'n gyfle i gyflogi ac arallgyfeirio, datblygu diwydiant gwledig.
  Gwernant – Dim gwrthwynebiad ond iddynt ddilyn y canllawiau a sicrhau fod nhw'n adfer adeilad adfeiledig yn ol y gofynion.

**8. Cyllid**

- **8.1** - Cytunwyd i dalu'r sieciau ond nid yr un Parish Online am y tro. Arwyddwyd gan y Cyng. Sharon Thomas a'r Cyng.Maldwyn Lewis. Bydd angen cael rhywun arall i arwyddo y siec oedd yn daladwy i'r Cyng.Maldwyn Lewis.

| | | |
|---|---|---|
| Maldwyn Lewis ( bocsys de-fib) | £1659.00 | 001716 |
| Trefhedyn Garden Center | £832.00 | 001717 |
| HMRC (Awst) | £43.30 | 001718 |
| Geoxphere Ltd, (Parish Online) | £96.00 | 001719 ( dim talu ar hyn o bryd) |
| Ashmole & Co | £90.00 | 001720 |
| Rhian Jones Clerc (Awst/Medi) | £347.40 | 001721 |
| Un Llais Cymru | £256.00 | 001722 |
| HMRC (Medi) | £43.60 | 001723 |
| Rhian Jones – cyfieithu | £144.72 | 001724 |

**9. Materion Ardal**

- **9.1** – Mae angen mynd ati i osod y bocsys De-fib newydd i fyny yn y pentrefi. Gan fod maint rhai ohonynt yn fwy na beth sydd yno eisioes mae angen i pob Cynghorydd drefnu gyda'i pentrefi i sicrhau nad oes gwrthwynebiad i ail-osod nhw, gan fod rhain yn amlycach. Wedi cael caniatad a fyddai modd gosod nodyn ar What's App er mwyn i'r gwaith gael eu wneud cyn gynted a phosib.
- **9.2** – Cynhaliwyd noson Cneifio Cyflym yn Beulah yn ddiweddar i godi arian at Sioe'r Cardis. Bu'n noson llwyddiannus iawn.
- **9.3** – Potiau Blodau – Mawr siom i ni fel Cyngor Cymuned yw fod blodau Brongest wedi diflannu. Y gobaith yw gosod blodau'r Gwanwyn yn y potiau er mwyn cael cadw lliw ynddynt dros y Gaeaf/Gwanwyn. Mae angen i'r Clerc holi Roger yn Trefhedyn faint o fylbiau fydd angen ar gyfer y 16 pot a chaiff ei drafod yn y cyfarfod nesaf.
- **9.4** – Ar Hydref 7fed, cynhelir Bore Coffi McMillan yn Neuadd Coedybryn rhwng 10 a 12 o'r gloch.
- **9.5** – Bydd Bronwen Lewis yn canu yn Neuadd Coedybeyn ar Hydref 27ain.
- **9.6** – Mae Dwr Cymru yn gweithio ar rhan o'r ffordd yng Nghoedybryn cyn diwedd y mis ac mi fydd rhan o'r ffordd ynghau am 24 awr.
- **9.7** – Mae rhan o'r ffordd wedi rhannol suddo rhwng Penffos a LLysywern yn Rhydlewis. SA44 5PQ (CLIC)
- **9.8** – Daeth consyrn fod rhan o'r clawdd wedi gor-dyfu ger y bont yn Rhydlewis ac anodd oedd gweld yr arwydd cyflymdra.

**10. Cyfarfod Nesaf**

- **10.1** – Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd bentraf Ffostarsol am 7:30 ar Hydref 3ydd.
- **10.2** – Gan nad oedd dim ymhellach i drafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod i ben am 9:00 o'r gloch.

Cadarnhawyd fod y cofnodion yma yn gywir.

Llofnod　　　　　　　　　　　　　　　　　　Dyddiad

______________________________　　　　________________________